

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lon Garnedd, Abergele, LL22 7EW Ffon : 01745 826901 Sym : 07903328655
e-bost : johnmaclellan9@icloud.com

MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 7.30y.h. DDYDD LLUN, MAWRTH 5ed, 2018, YN NEUADD Y PENTREF, BETWS YN RHOS.

1. CROESO - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Hefin Williams a'r Cynghorwyr Bryn Jones; Tudur W.Jones; Gwyndaf O.Roberts; Goronwy R.Williams a'r Cynghorydd Sir, Ifor G.Lloyd.
3. YMDDIHEURIADAU - Yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Irwedd Griffiths a'r Cynghorwyr Eifion Evans; D.Gwyn Jones; Fiona Haf Jones; a John D.Roberts.
4. DATGANIADAU O DIDDORDEB -

Atgoffir yr aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. NI DDATGELWYD YR UN.
5. MUNUDAU - PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Chwefror 12fed, 2018, yn Neuadd y Pentref, Betws yn Rhos.
6. MATERION YN CODI

12.17/14(ii) Cais gan gae chwarae Llanellian am bresenoldeb swyddog. Ar ôl y cyflwyniad gan Ms Meira Woosnam PENDERFYNWYD gwneud cais i Gronfa'r Parc Heulol, a hefyd i arian grant arall i amgylchynu lle chwarae'r plant gyda ffens.

12.17/14(iii) Yourtiau mewn cae lleol. Y mater hwn i'w ohirio i'r Adran Gorfodaeth Cynllunio.

1.18/14(i) Prynu diffibriliwr ym Metws yn Rhos. PENDERFYNWYD hysbysebu cyfarfod.

1.18/14(v) Tyllau yn y ffordd rhwng croesffordd Garnedd a chroesffordd Nentydd. Dywedodd y Cyngorydd Lloyd y byddai'r Archwiliad Ward yn delio gyda phob mater cysylltiedig â gwasanaethau a ddarperir gan yr adran ERF.

2.18/14(i) Difrod i ddrws y bwth teleffon. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu gyda chontractiwr lleol i drwsio'r drws.

7. GOHEBIAETH GYFFREDINOL -

3.18/7(i) Adnewyddu aelodaeth o Un Llais Cymru. CYTUNWYD ar hyn, ac fe fyddai swm o £138 yn cael ei anfon.

3.18/7(ii) Cais am arddangos dyddiadau syrjeri'r Gwir Anrhydeddus David Jones, AS. CYTUNWYD ar hyn hefyd, a gwnaed hynny.

3.18/7(iii) Newid i gyfrifon yn HSBC. NODWYD hyn ar y pryd.

8. CYLLID - I nodi ac arwyddo adroddiadau'r Banc ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Chwefror 26ain, 2018.

Cyfrif cymunedol£7111.71

Cyfrif busnes£5528.36

3.18/8(i) Mantolen fisol. CYTUNWYD arni gan bawb.

9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - Dim.

10. TALIADAU ALLAN - PENDERFYNWYD talu'r holl eitemau a restrir isod:-

- i. 3.18/10(i) Cyflog y Clerc£ 287.23 - 101107
- ii. 3.18/10(ii) HMRC...(Bacs).£ 71.81 -
- iii. 3.18/10(iii) Cyfieithu£ 20.00 - 101112
- iv. 3.18/10(iv) Un Llais Cymru£ 138.00 - 101109
- v. 3.18/10(v) Treulliau chwarter y Clerc£ 75.00 - 101110

vi.	3.18/10(vi) Inc£	39.99 - 101111
vii.	3.18/10(vii) Stampiau£	31.20 - 101110

11. CEISIADAU AM GRANT - Dim.

12. MATERION SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

4.16/12(i) Adroddiadau'n ymwneud â materion Archwiliad Ward. Dywedodd y Cyngorydd Lloyd y byddai'r Archwiliad Ward yn digwydd ar Fawrth 6ed, 2018. Dywedodd hefyd ei fod ef a phedwar Cyngorydd Sir arall wedi cwestiynu'r penderfyniad i gael casgliad bagiau bin duon yn fisol, oherwydd eu bod yn amau dilysrwydd y broses ymgynghori. Dywedodd wrth yr aelodau y byddai'n gofyn i'r Sir gynnal diwrnod Amgylchedd ac Ailgylchu Cymunedol.

13. MATERION CYNULLIAD CYMRU - Dim.

14. MATERION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED

3.18/14(i) Adroddwyd bod canopi / politwnnel wedi ymddangos mewn cae lleol.

3.18/14(ii) Roedd cwyn wedi ei derbyn ynglŷn â difrod gan ysgubwr ffordd i'r ffordd ger Bryn Rhodyn.

3.18/14(iii) Derbyniwyd cwyn ynglŷn â chyflwr y ffordd rhwng Dolwen a Chefn Nen.

15. UNRHYW FATER ARALL

3.18/15(i) Hysbysfwrdd Llanelian. PENDERFYNWYD ailosod hysbysfwrdd presennol y Cyngor gyda'r bwrdd a brynwyd yn ddiweddar.

3.18/15 Adroddiad blynyddol y Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol. NODWYD yr adroddiad. 3.18/15(iii). Cyflwyniad Ms Meira Woosnam. Cynigiwyd copi o gyflwyniad Ms Woosnam i bob aelod oedd yn bresennol.

16. CYNLLUNIO -

3.18/16(i) 0/44859 Datblygiad preswyl o 24 annedd ac isadeiledd cysylltiedig ar dir oddi ar Fryn-y-Môr, Ffordd Dolwen, Hen Golwyn. Cartrefi MacBryde Cyf.

GWRTHWYNEBODD yr aelodau'r datblygiad hwn ar sail y rhesymau a amlinellir isod:-

- Mae'n ddatblygiad gormodol o'r ardal.
- Mae'n ymylu ar ardal werdd, a'r tu allan i ardal anheddiad gydnabyddedig.
- Roedd yr aelodau'n pryderu na fyddai'r gwasanaethau'n gallu ymdopi gyda'r carthffrydiau a'r dŵr ychwanegol a fyddai'n llifo oddi ar yr wyneb caled.
- Fe fydd y drafnidiaeth ychwanegol yn achosi problemau yng nghylchfan y Marine, yn arbennig felly i blant ysgol yn cerdded i'r ysgol.
- Fe fyddai adeiladu'r cartrefi hyn yn amharu'n ddifrifol ar y preswylwyr sydd yno'n barod.
- Mae'r dosbarthiad o'r tir fel 3b yn amheus gan fod hwn wedi cefnogi pob math o amaethyddiaeth dros amser sylweddol..

3.18/16(ii) Amrywiad yn amodau 4 a 5 caniatâd cynllunio 0/40900 (Newid arfaethedig o ddefnydd o dir ar gyfer lleoli 11 caban, creu ffordd fynedfa a datblygiad cysylltiedig) i ganiatáu cyflwyno manylion ar ôl gweithredu datblygiad ym mharc Carafanau Fferm y Plas, Betws yn Rhos. Mr. John Jones. Mae'r aelodau'n ymwybodol bod rhai cabanau yno'n barod.

- Mae'r aelodau'n gofyn am i'r adran gynllunio ystyried cytundebau Adran 106 o ran mynedfa a ffordd allan i drafnidiaeth o'r safle i ffordd Dolwen, i sicrhau diogelwch a hefyd i ystyried TAN 18 yn arbennig.

- Mae'r aelodau'n awyddus hefyd na fydd hyfrydwch na golwg yr ardal yn cael eu heffeithio gan ddodrefnu hyll ac anghymarus.

3.18/16(iii) 0/44870 Codi 15 cwt/coden bugeilio arfaethedig ynghyd â gwaith cysylltiedig, megis maes parcio a thirlunio ym Mrynffanigl Uchaf, Ffordd Pen-y-Bryn, Betws yn Rhos. Mr/Miss Rheon/Lucy Roberts/Curtis. GWRTHWYNEBODD yr aelodau i'r cais hwn am y rhesymau a ddangosir isod:-

- Gofynnodd yr aelodau a oedd yna gynllun ymarferol yn bod ar gyfer y cais hwn, gan ddweud bod yna doreth o fathau cyffelyb o fwynderau yn yr ardal.
- Nid oedd maint na graddfa'r cais hwn yn gydnaws â'r ardal leol.
- Gofynnodd y Cyngor a oedd y cais hwn yn dod o dan bolisi cynllunio TOU 4.

17. MATERION ARCHWILIAD -

3.18/17(i) Cynllun Archwiliad Mewnol ar gyfer 2017/18. NODWYD hyn.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe orffennodd y cyfarfod am 9.50y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....